



YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN-Y-MÔR

Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham

Mewn undod mae nerth /Stronger together

21.05.21

Annwyl Riant / Gofalwr

Ymateb i'r cynnig i newidiadau amseroedd diwedd dydd ysgol Medi 2021

Mae rhieni wedi pleidleisio **o blaid** y newidiadau i amseroedd ddiwedd y diwrnod ysgol. Pleidleisiodd 77% dros y newid, 16% yn erbyn a 7% yn ansicr. Mae'r llywodraethwyr yn hapus i gefnogi penderfyniad y rhieni. Fel y soniais yn fy llythyr cychwynnol, byddai'r penderfyniad hwn yn cael ei arwain yn llwyr gan rieni a llywodraethwyr. Felly, ym mis Medi 2021, bydd disgyblion cyfnod sylfaen (Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) yn gorffen eu diwrnod ysgol am 3.05pm. Diolch i bawb sydd wedi ymateb i'r holiadur ac wedi rhoi adborth a chwestiynau. Mae digwyddiad byw ar gyfer Holi ac Ateb wedi'i gynllunio ar gyfer dydd Mawrth 25 Mai am 4.15pm lle byddwn yn ymateb i rai o'r cwestiynau / awgrymiadau a roddwyd ar y ffurflen. **Byddwn hefyd yn ailadrodd y trefniadau ar gyfer diwedd y diwrnod ysgol yn y cyfarfod hwn.**

Dyma'r ddolen i'r cyfarfod:

[Cliciwch yma i ymuno gyda'r cyfarfod](#)

Bydd y trefniant hwn yn dod i rym **dim ond** os bydd newidiadau i'r canllawiau pellhau cymdeithasol cyfredol a rheolau Llywodraeth Cymru.

COFIWCH HMS

Mae diwrnod HMS wedi'i gynllunio ar gyfer dydd Llun, Mai 24ain 2021 felly bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion. Nid oes unrhyw ddiwrnodau HMS pellach wedi'u cynllunio ar gyfer gweddill y tymor.

Noson Rhieni

Mae nosweithiau rhieni ar y gweill ar gyfer y pythefnos yn dilyn gwyliau'r Sulgwyn - wythnosau'n dechrau 7.6.21 a 14.6.21 (yn bwysig ar gyfer chwilio am ddyddiadau ar y ffurflen archebu). Defnyddiwch y ffurflen archebu ar-lein hon i archebu'ch slot amser. Rhaid i chi ddewis eich athro o'r gwymplen. Er bod slotiau amseroedd yn 15 munud o hyd, mewn gwirionedd bydd y cyfarfod oddeutu 10 munud o hyd, er mwyn caniatáu i staff baratoi ar gyfer y cyfarfod canlynol. Rydym wedi dyrannu un cyfarfod i bob plentyn oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Os oes angen mynediad o wahanol leoliadau ar rieni / gofalwyr - cofiwch ychwanegu e-bost arall fel y gall yr athro dosbarth anfon gwahoddiad. **Ni fydd yr athro dosbarth yn gallu anfon y gwahoddiad nes bod y cyfarfod wedi cychwyn felly mae'n rhaid i'r rhiant arall fod yn barod i dderbyn mynediad trwy'r e-bost a ddarperir.** Ar wahân i hynny, unwaith y byddwch chi'n cadw lle slot amser, bydd cyfarfod yn cael ei gynhyrchu'n awtomatig i chi a'r athro.

Dolen cadw lle:

<https://outlook.office365.com/owa/calendar/YsgolGGBrynyMor@hwbwave15.onmicrosoft.com/bookings/>

Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP

E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk

Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk

Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1

Ffôn/ Tel: 01792 466354





YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN-Y-MÔR

Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham

Mewn undod mae nerth /Stronger together

Gofynnaf ichi i gyd fod yn amyneddgar gyda phob aelod o staff gan mai hwn yw'r tro cyntaf inni gynnal nosweithiau rhieni trwy Dimau MS. Fel rwy'n siŵr ein bod ni i gyd yn ymwybodol, weithiau mae gan gyfrifiaduron a systemau eu heriau!

Covid 19

A gaf i atgoffa rhieni na ddylech anfon eich plentyn i'r ysgol os oes gan eich plentyn neu unrhyw un ar yr aelwyd unrhyw un o'r symptomau canlynol:

- peswch newydd neu barhaus
- Tymheredd uchel
- Colli blas neu arogl

Rhowch wybod i'r ysgol ar **unwaith** os oes unrhyw un yn y cartref yn profi'n bositif am Covid 19.

Diolch am eich amynedd, eich caredigrwydd a'ch cydweithrediad.

Yn Gywir,

E. Wakeham

Elin Wakeham
Pennaeth

Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP

E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk

Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk

Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1

Ffôn/ Tel: 01792 466354

